YSGOL CALON CYMRU

**The School at the Heart of Wales**

Anrhydedd o'r mwyaf yw bod yn Bennaeth Ysgol Calon Cymru. Mae'r haelioni, cynhesrwydd a gofal dros eraill a welaf yma'n ddyddiol yn gwneud i fi deimlo'n freintiedig i fod yn rhan o'r ysgol nodedig hon. Gan gofio enw addas yr ysgol, mae Ysgol Calon Cymru wrth graidd y gymuned gyfoethog a bywiog hon, ac rydym yn ffynnu ar y sefydlogrwydd a ddaw yn sgil hynny.

Rhan o'm swydd yw sicrhau bod gwerthoedd a chryfderau ein cymuned yn parhau i gael eu hadlewyrchu yn ein hysgol. Mae hyn yn golygu bod rhaid i ni i gyd – disgyblion, rhieni, gofalwyr a staff gyfan yr ysgol – weithio gyda'n gilydd gydag ymddiriedaeth, parch a gweledigaeth gyfrannol.

Mae'r weledigaeth hon yn cynnwys rhoi i'n dysgwyr i gyd yr hyder i dyfu, i anelu'n uchel, ac i feddu ar ddyheadau ar gyfer eu dyfodol a'u hunan-barch. Mae hyn yr un mor bvwysig i fi â sicrhau addysgu a dysgu o'r safon uchaf ar draws pob maes pwnc. Nid yw ein huchelgais ar gyfer ein dysgwyr yn peidio wrth iddynt adael yr ysgol, a felly rhaid i ni sicrhau y bydd y profiadau a chyfleoedd a geir yn Ysgol Calon Cymru o fudd iddynt yn y dyfodol yn eu bywydau a'u llwybrau gyrfaol.

Fel y gwyddoch eisoes, mae'r gyfnod o her digynsail. Yn Ysgol Calon Cymru, mae iechyd, diogelwch a lles ein disgyblion, ein staff a'r gymuned ehangach o'r pwysigrwydd pennaf. Er hynny, gallwch fod yn sicr nad ydym yn rhoi ein hymrwymiad i'n dysgwyr naill ochr. Yn y cyfnod heriol hwn, mae galluogi ein dysgwyr i feddu ar ddyheadau am eu dyfodol yr un mor bwysig ag erioed. Rwyf i a fy nghyweithwyr yn credu'n gryf na ddylai'r un plentyn fod dan anfantais oherwydd argyfwng sydd y tu hwnt i'w rheolaeth, ac rydym yn gwneud popeth a fedrwn i wneud yn siŵr nad dyma fydd y canlyniad i unrhyw un o ddisgyblion Ysgol Calon Cymru.

Diolch am eich cefnogaeth barhaol yn ystod y cyfnod anodd hwn. Gobeithiaf eich bod chi a'ch ceraint yn ddiogel ac yn iach, ac y byddwn yn medru eich croesawu Ysgol Calon Cymru yn fuan unwaith eto.

Yn gywir,

Richard Jones

Richard Jones

Pennaeth, Ysgol Calon Cymru

*Campws Llanfair-ym-Muallt, Ffordd y Coleg, Llanfair-ym-Muallt, Powys, LD2 3BW*
*Builth Wells Campus, College Road, Builth Wells, Powys, LD2 3BW*
*Ffôn / Phone 01982 553292*

*Campws Llandrindod, Heol Dyffryn, Llandrindod, Powys, LD1 6AW*
*Llandrindod Wells Campus, Dyffryn Road, Llandrindod Wells, Powys LD1 6AW*
*Ffôn / Phone 01597 822992*